

Alex Maiello – Cydymaith Meddygol

Cyflwyniad

Fy enw i yw Alex Maiello, fi yw'r Cydymaith Meddygol (CM) arweiniol gyda Hywel Dda. Cefais wybod am rôl Cydymaith Meddygol pan oeddwn yn fy ail flwyddyn yn y brifysgol. Soniodd John Knight, sy'n un o'r darlithwyr yno, ei fod yn gwybod fy mod i eisiau mynd i feddygaeth a gofynnodd a oeddwn wedi ystyried rôl Cydymaith Meddygol. Dywedais nad oeddwn yn gwybod beth oedd hynny, felly ymchwiliais iddo a dyma feddwl ei bod yn cynnig y cyfan roeddwn i ei eisiau mewn swydd, oherwydd roeddwn i bob amser yn meddwl fy mod i eisiau mynd i ymarfer cyffredinol hefyd felly roedd natur gyffredinol swydd Cydymaith Meddygol yn gweddu i'r dim mewn gwirionedd.

Awdurdod i weithredu

Pŵer Dirprwyedig. Mae CM yn gweithio o dan bwerau dirprwyedig. Y model mentora ar gyfer CM yw eu bod wedi cael uwch ymgynghorwyr penodol wedi eu haseinio iddynt, sy'n wych oherwydd mae'r ffordd mae model gweithio CM wedi'i strwythuro yn golygu nad ydym byth yn cael ein gadael yn llwyr ar ein pennau ein hunain, ond nad oes disgwyl 'chwaith fod yn gwbl awtonomaidd. Rydyn ni'n cymryd ychydig gamau ymlaen bob rhyw ychydig flynyddoedd, ac yn y pen draw mae'r pellter rhwng eich goruchwyliwr clinigol a chi yn cynyddu ychydig, nid yn yr ystyr eich bod yn gwneud pethau y tu allan i'ch cwmpas ymarfer, ond yn yr ystyr bod eu hangen i oruchwylio popeth rydych chi'n ei wneud yn cael ei leihau. Mae'r trothwy sydd ei angen iddyn nhw gael mewnbwn ar yr hyn rydych chi'n ei wneud yn cynyddu bob ychydig flynyddoedd, sy'n wych. Mae hynny'n mynd law yn llaw â'r datblygiad yn eich profiad a'ch set sgiliau. Mae hefyd yn golygu eu bod nhw yno pan fo angen a phan fyddwch chi'n teimlo bod angen i chi gael cefnogaeth uwch.

Rhan o'r tîm (1)

Mae integreiddio CM mewn gwahanol dimau clinigol, nid gofal sylfaenol yn unig, wedi bod yn anhygoel. Mae'n wir nad oes cyfnod hir ers i fi gymhwyso, ac mae'n debyg nad ydw i'n gyfarwydd â chymau cynnar cyflwyno CM, rwy'n credu bod peth amheuaeth ynghylch y rôl i gychwyn, ond o ran yr hyn welaf i mae'r rôl CM wedi ei gwreiddio'n dda nawr, yn Hywel Dda o leiaf. Yr hyn rydw i wedi'i weld yw bod uwch-swyddogion clinigol a rolau eraill fel Uwch Ymarferwyr Nyrsio yn agored iawn i gael CM yn eu timau



clinigol, sy'n braf, mae'n galonogol, oherwydd rwy'n credu fy mod wedi ymuno ar adeg pan fo'r amheuaeth wreiddiol wedi'i goresgyn.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae llawer mwy o ddealltwriaeth o ran lle mae'r bylchau mewn gwybodaeth a phrofiad mewn rôl CM, ac maen nhw mewn sefyllfa i ddweud, iawn, wel, rwy'n gwybod bod llawer o CM sydd wedi bod yn y rôl hon heb brofiad o wneud pethau fel tapiau ascitig neu bigiadau yn y lwynau, mae hynny'n rhywbeth y gallwn ystyried ei uwchsgilio a chyflwyno'r wybodaeth ychwanegol hon. Rwy'n nabod sawl CM mewn sawl adran sydd nawr, flwyddyn a hanner, ddwy flynedd ar ôl dechrau ar lefel ôl-gymhwyso, ac maen nhw'n aelodau craidd o'r tîm clinigol achos maen nhw wedi bod yno ers cyhyd ac mae 'na gynlluniau iddyn nhw wneud eu clinigau eu hunain.

Rhan o'r tîm (2)

Mae 'na gynlluniau iddyn nhw fod yn aelodau craidd cryf iawn o'r timau clinigol, y bydd gyda nhw'r lefel o gyfrifoldeb y byddech chi'n gobeithio amdani mewn rhywun sy'n datblygu yn eu gyrfa ac sy'n ehangu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'n gydnabyddiaeth mewn ffordd bod y person hwn yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ei ymddiried â'r lefel hon o gyfrifoldeb gan yr uwch glinigwyr. Mae hynny'n beth cadarnhaol iawn, bod eu huwch swyddogion yn deall nad rhyw syniad newydd dros dro mohono, a bod yn rhaid cyflogi CM dim ond am fod Llywodraeth Cymru yn mynnu hynny. Mae'n fater o sylweddoli, dyma glinigwr y gallwn ei ddefnyddio'n dda iawn mewn ffordd fwy effeithlon ac mewn ffordd sy'n cyfoethogi eu set sgiliau yn uniongyrchol hefyd, i greu clinigwr gwell a mwy gwybodus. Dyw hyn ddim yn wir ddim ond am ein bod ni eisiau iddo fod yn wir. Mae fel effaith domino, un peth yn arwain at y llall, ac yn y pendraw, fe gewch CM sydd â sgiliau a dealltwriaeth gwych.

Hyfforddi a Chymhwyso

Mae unrhyw CM sydd wedi mynd drwy'r rhaglen, yn enwedig drwy'r pandemig a'u blwyddyn gyntaf o gymhwyso a dweud, "O na, dwi erioed wedi cael unrhyw broblemau" naill ai ddim yn gwbl onest gyda nhw'u hunain, neu heb wneud pethau'n iawn. Fe wnes i gymhwyso yn ystod y pandemig. Roedd hi ryw dri neu bedwar diwrnod cyn i ni sefyll ein harholiadau terfynol, a dyma gael gwybod ein bod yn mynd i sefyllfa Cyfarpar Diogelu Personol iawn ac roedd yn heriol. Wedyn wnaethon ni'r un peth yn yr arholiad cenedlaethol yn Lerpwl. Roedd yn, nid yn hwyl, ond yn ddiddorol gweld pa mor gyflym roedd yn rhaid i ni addasu. Ac mewn gwirionedd, roedd yn hwb i ni



sylweddoli ein bod yn gwybod yr elfen glinigol, yr ochr feddygol ar bethau. Roedden ni'n gwybod bod angen newid elfen ar ein hymarfer, ond heblaw am hynny, roedd yn fater o fwrw ati fel arfer.

Heriau a Phethau Gwerth Chweil

Rwyf wedi wynebu ambell her ers cymhwyso, ambell nenfwd gwydr nad oedd angen bod yno. Ambell beth rydw i, o swydd uwch reolwr wedi bod gallu ei newid. Mae hynny'n beth eithaf arferol rwy'n meddwl. Mae'n rhywbeth y mae unrhyw rôl newydd bron yn ei ddisgwyl. Rydyn ni i gyd yn cael ambell ddiwrnod gwael, pan fyddwn ni'n meddwl y dylen ni fod wedi gwneud rhywbeth mewn ffordd wahanol. Ond o roi pethau yn eu cyd-destun, ac yn ystyried ble rydych chi wedi'i gyrraedd mewn blwyddyn a hanner i ddwy flynedd, dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n newid unrhyw beth. Ac mae hynny'n deimlad gwych hyd yn oed pan fydda i wedi cael diwrnod gwael ac efallai 20 o gleifion anodd i'w gweld ac rwyf yn y practis tan ar ôl saith o'r gloch y nod - rwy'n dal i yrru adref yn hapus. Rwy'n credu os gallwch chi basio'r prawf gyrru adref yna, mae'r cyfan yn werth chweil.

